Neil Wooding

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof?

Bûm yn llwyddiannus ar ôl ymgyrch recriwtio agored CGGC am Gadeirydd, a fi yw'r darpar Gadeirydd presennol. Rwyf hefyd yn aelod cyfetholedig o'r Bwrdd. Rwy'n chwilio am gymeradwyaeth aelodaeth CGGC i atgyfnerthu'r penodiad hwn.

Mae bod yn rhan o genedl â diwylliant mor gryf a bywiog o gymorth gwirfoddol a gwasanaethau cymunedol yn fy ngwneud i'n falch o fod yn Gymro ac yn cadarnhau fy nghred yng ngharedigrwydd pobl eraill. Rwyf wedi gweithio'n wirfoddol i gefnogi cymunedau lleol a'r amgylchedd, ac wedi dysgu cymaint am fy hun a'r byd rydym yn byw ynddo.

Mae gennyf brofiad o arwain mudiadau, mewn cyd-destun strategol a gweithredol, fel swyddog anweithredol ac mewn rolau uwch weithredol. Rwy'n hen law ar feithrin cydberthnasau, gwerthfawrogi gwahaniaeth, creu buddiannau a rennir a chydweithio.

Fel aelod etholedig o Fwrdd CGGC, fy ngwaith i fydd diogelu a hyrwyddo gwasanaethau'r trydydd sector, mynd i'r afael â'r anawsterau y mae pob un ohonom yn eu hwynebu, herio er mwyn helpu mudiadau a rhwydweithiau i fod yn wydn a harneisio llais ac uchelgais y sector er mwyn dylanwadu ar bolisi llywodraethol ac, yn y pen draw, ar les pobl ar hyd a lled Cymru.

Rwy'n gwbl ymrwymedig i greu cymdeithas deg a chyfiawn ac i weithio gydag CGGC i gyflawni hyn.